# Academi Dysgu Conwy

## Cefnogi Eich Datblygiad Personol a Phroffesiynol



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

This document is also available in English

# 1 Croeso i Academi Dysgu Conwy

Yng Nghonwy, rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith ac felly rydym yn eich cefnogi chi i fod y gorau allwch chi fod, yn bersonol ac yn broffesiynol. Dyna'r rheswm rydym yn buddsoddi mewn cynnig dysgu a datblygu sy'n eich cefnogi chi i herio eich meddylfryd, adlewyrchu ar eich anghenion dysgu a chaffael sgiliau newydd, os yw hynny ar gyfer camu i'ch gyrfa nesaf, datblygu sgiliau rheoli neu gynnal eich lles.

Mae ein Hacademi Dysgu yn dangos ein hymrwymiad i'ch twf, datblygiad a gwelliant parhaus, gan eich darparu chi â'r offer i gyflawni eich llawn botensial a ffynnu yn eich rôl. Mae'n cynnwys mynediad at weithdai, rhaglenni hyfforddiant, adnoddau dysgu, llwyfannau rheoli dysgu a chefnogaeth datblygu gyrfa.

## Beth yw Academi Dysgu Conwy?

Mae'n gynnig dysgu a datblygu Conwy i gefnogi Conwy a'i weithwyr i:

- Gaffael a gwella sgiliau a gwybodaeth
- Cefnogi diwylliant o ddysgu a myfyrio er mwyn annog twf ac arloesedd
- Eich grymuso chi i deimlo'n hyderus i gymryd heriau neu gyfrifoldebau newydd
- Gwella llwyddiant Conwy trwy wella perfformiad unigol a sefydliadol
- Eich darparu chi â gwybodaeth i gadw ein cymunedau'n ddiogel
- Rhoi sgiliau a gwybodaeth sydd ei angen arnoch i weithio'n ddiogel
- Hyrwyddo ac annog arferion da mewn ymddygiad rheoli
- Sicrhau ein bod ni oll yn deall sut i weithio mewn modd parchus a chynhwysol.

Mae ein Hacademi Dysgu yn cefnogi ac yn cyd-fynd â dysgeidiaeth yn ymwneud â'ch datblygiad personol a phroffesiynol, yn ogystal â'r hyn y gall gael ei gynnig gan eich gwasanaeth eich hun. Cofiwch drafod eich anghenion dysgu gyda'ch rheolwr atebol pan fyddwch yn cael gwiriad Sgwrs Conwy.

Pan fyddwch yn mynychu unrhyw ddysgeidiaeth a gefnogir gan Gonwy, gofynnwn i chi gymryd rhan weithredol, bod â meddylfryd agored a chwilfrydig, gofyn cwestiynau a rhannu enghreifftiau (gan gynnal cyfrinachedd) os ydych yn credu y gallent fod o fudd i eraill.

Yn fwy na dim, cofiwch adlewyrchu ar eich dysgeidiaeth, a'i ddefnyddio yn eich gwaith dydd i ddydd a rhannu'r hyn rydych wedi'i ddysgu gyda'ch cyd-weithwyr. Mae dysgu yn gyfrifoldeb personol i bob un ohonom, mae'r cynnig hwn ar eich cyfer chi … manteisiwch arno!



Cheryl Roberts
Rheolwr Datblygu
Sefydliadol Corfforaethol



Rebecca Jones
Cydlynydd Datblygu
a Hyfforddi Corfforaethol

# 2 Beth Sydd y Tu Mewn?

Bydd y ddogfen hon yn amlygu'r cynnig dysgu corfforaethol sydd ar gael, gallwch bori trwyddi a chanfod beth sydd o ddiddordeb i chi a thrafod gyda'ch rheolwr sut ydych chi'n credu y gallwch elwa o fynychu neu gwblhau'r ddysgeidiaeth sydd ar gael.

Er mwyn eich helpu chi i weld be all fod o ddiddordeb, rydym wedi rhannu'r cynnig dysgu i themâu.

Gellir archebu'r holl ddigwyddiadau drwy system Hunanwasanaeth iTrent. Gallwch wirio argaeledd ac archebu eich lle yma:
**ESS - Mewngofnodi (conwy.gov.uk)**.


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Croeso i Academi Dysgu Conwy | 2 |
| 2 | Beth Sydd y Tu Mewn? | 3 |
| 3 | Eich Cefnogi Gyda'ch Dysgu a Datblygu | 4 |
| 4 | Dechrau Gweithio i Gonwy | 5 |
| 5 | Hanfodion Dysgu ar Gyfer Holl Weithwyr | 6 |
| 6 | Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant | 7 |
| 7 | Iechyd, Lles a Lles Ariannol | 9 |
| 8 | Sgiliau Cyfathrebu a Gweithio | 11 |
| 9 | Sgiliau Digidol | 13 |
| 10 | Sesiynau Dysgu Espresso | 14 |
| 11 | Cefnogi Eich Datblygiad Gyrfa | 16 |
| 12 | Datblygiad Rheoli | 17 |
| 13 | Hyfforddiant a Chynllun Mentora Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau | 19 |
| 14 | Eisiau Bod yn Un o Filiwn? Dysgwch Gymraeg! | 20 |
| 15 | Datblygiad Trwy Fframweithiau Prentisiaeth | 21 |
| 16 | Llwyfan Dysgu Digidol Diwylliant Hyfforddi | 22 |
| 17 | Gweithio'n Ddiogel | 23 |
| 18 | Hyfforddiant Argyfyngau Sifil Posibl | 25 |
| 19 | Dysgu Hunangyfeiriedig | 26 |
| 20 | Canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol | 27 |




# 3 Eich Cefnogi Gyda'ch Dysgu a Datblygu

Rydym am eich helpu i dyfu trwy ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth fel eich bod yn teimlo'n hyderus ac wedi'ch grymuso i ddarparu eich rôl hyd eithaf eich gallu.

Mae llawer o wahanol ffyrdd y byddwn yn dysgu, mae mynychu dysgu ffurfiol yn un o'r ffyrdd y gallwn eich helpu i ehangu eich gwybodaeth, adeiladu ar eich galluoedd presennol a thanio meddyliau newydd.

Argymhellwn eich bod yn ystyried plethu ystod o weithgareddau dysgu megis cyfuniad o:

- **Dysgu Trwy Brofiad -** dysgu trwy brofiad, ymarfer a gweithgareddau yn y swydd

- **Dysgu Cymdeithasol -** trwy ryngweithiadau megis cydweithio ar brosiectau, derbyn adborth, rhannu gwybodaeth

- **Dysgu Ffurfiol** - dysgeidiaeth strwythurol megis hyfforddiant, gweithdai, gweminarau ac e-ddysgu.

## Amser i Ffwrdd i Fynychu Hyfforddiant

Os ydych yn dymuno mynychu digwyddiad bydd angen cael caniatâd eich rheolwr atebol. Unwaith y derbynnir cymeradwyaeth, cewch amser i ffwrdd gyda thâl er mwyn mynychu unrhyw un o'r digwyddiadau hyfforddi a gynigir o fewn ein Hacademi Dysgu.

## Cyfleoedd Dysgu Eraill

Gellir darparu cyfleoedd a chymorth i chi i gael cymwysterau proffesiynol cydnabyddedig, sydd yn berthnasol i'ch gwaith yn yr Awdurdod. Bydd y rhain yn cael eu hariannu o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael o gyllidebau gwasanaeth ac yn amodol ar gymeradwyaeth rheolwr. Hefyd efallai byddwch yn gymwys am arian drwy Gyfrif Dysgu Personol, cliciwch yma i gael manylion: **Cyfrifon Dysgu Personol | Gyrfa Cymru (gov.wales)**.

## Cymorth ar Gyfer Hyfforddiant Proffesiynol

Yn amodol ar awdurdodiad a chymeradwyaeth gan eich Pennaeth Gwasanaeth, gall y Cyngor fodloni holl, *neu* gyfuniad o'r costau canlynol o gyllidebau gwasanaeth:

- Cyflog llawn wrth fynychu hyfforddiant
- Taliad am ffioedd y cwrs, cofrestru, ffioedd hyfforddiant ac arholiad
- Yr amser dysgu i fod yn bresennol i ddysgu ar y safle.

## Cytundeb Hyfforddiant

Pan mae'ch Gwasanaeth yn cytuno i ariannu digwyddiad dysgu neu gymhwyster proffesiynol sydd yn costio mwy na £1,500, bydd gofyn i chi gwblhau Cytundeb Hyfforddiant. Mae'r cytundeb hwn ar gael ar y Fewnrwyd **yma**.




# 4 Dechrau Gweithio i Gonwy

## Croeso i Dîm Conwy!

Hoffem eich croesawu chi a'ch helpu chi i ddeall ein diwylliant, ein gwerthoedd, y gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n cymuned, a sut i weithio'n ddiogel fel y gallwch deimlo eich bod yn perthyn.

Rydym yn cynnig cyrsiau sefydlu a modiwlau e-ddysgu sy'n hanfodol ar gyfer holl weithwyr newydd. Byddwch hefyd yn dod o hyd i lawer o wybodaeth ar ein tudalen **Croeso i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**.

## Cyflwyniad Corfforaethol

Cyflwyno gweithwyr newydd i'n sefydliad, ein proses gwneud penderfyniadau a gweithio i'n sefydliad.

## Cyflwyniad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Sicrhau bod gweithwyr newydd yn gweithio'n ddiogel a'u bod yn gwybod ac yn ymwybodol o arferion gwaith diogel.

## Hanfodion Dysgu

Un o'n blaenoriaethau craidd yw sicrhau bod pawb yn ein cymuned yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel. Mae cwblhau'r modiwlau e-ddysgu yn sicrhau bod gennym oll y wybodaeth sydd ei hangen i allu adnabod arwyddion mewn eraill, sy'n hanfodol i'n helpu i gyflawni hyn. Mae gofyn i chi gwblhau eich modiwlau Hanfodion Dysgu o fewn eich cyfnod prawf. Cyfeiriwch at y dudalen ddynodedig sy'n nodi pa ddysgeidiaeth sydd angen i chi ei gwblhau.

# 5 Hanfodion Dysgu ar Gyfer Holl Weithwyr

(a elwid yn flaenorol yn hyfforddiant gorfodol)

Mae Conwy wedi nodi nifer o anghenion hyfforddi yr ydym yn credu sy'n hanfodol i holl weithwyr eu cwblhau. Efallai eich bod wedi clywed y rhain yn cael eu galw'n hyfforddiant gorfodol yn flaenorol.

Bydd y pynciau o fewn ein Hanfodion Dysgu yn sicrhau ein bod ni oll yn cydweithio i gadw ein cydweithwyr, cymunedau a sefydliad yn ddiogel, yn ogystal â'n hatgoffa ni sut i weithio mewn modd parchus a chynhwysol.

Rhaid i'n testunau Hanfodion Dysgu gael eu cwblhau o fewn eich **cyfnod prawf o 6 mis** ac yna eu hadnewyddu yn ôl y gofyn ar gyfer pob pwnc.

## Diogelu a Darparu Cymunedau Diogel

- Diogelu Grŵp A
- Caethwasiaeth Fodern
- Trais Yn Erbyn Merched A Cham-drin Domestig
- Prevent *

Rhaid i'r uchod gael eu cwblhau bob tair blynedd.

- Fy Nhrin yn Deg (yn dod yn fuan).

** Gan fod yr hyfforddiant Prevent yn cael ei gwblhau trwy wefan allanol y llywodraeth, sicrhewch fod copi o'ch tystysgrif cwblhau yn cael ei rannu gyda'ch Swyddog Cyswllt Hyfforddi, fel ein bod yn gwybod eich bod wedi ei gwblhau.*

## Eich Diogelu Chi a'r Sefydliad

- Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018 (i'w gwblhau bob dwy flynedd)
- Ymwybyddiaeth Seiberddiogelwch (hyfforddiant gloywi i'w gwblhau'n flynyddol)
- Offer Sgrin Arddangos (defnyddwyr cyfrifiaduron yn unig) - ar gael yma: **Asesiad Offer Sgrin Arddangos - Cyflwyniad - Fy Nghonwy (achieveservice.com)**.

## Dysgu Penodol i Rôl

Safonau Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu (i'w cwblhau gan yr holl weithwyr sy'n prosesu taliadau cerdyn a'i adnewyddu'n flynyddol).

Efallai bydd eich gwasanaeth eich hun yn gofyn i chi gwblhau dysgeidiaeth yn ogystal â'r uchod, gwiriwch gyda'r rheolwr atebol os ydych yn ansicr.

Gellir cael mynediad at ein holl Hanfodion Dysgu trwy blatfform Dysgu@Cymru: **https://learning.wales.nhs.uk**.

## Hanfodion Dysgu ar Gyfer Holl Reolwyr

**Modiwlau Amrywiaeth a Chynhwysiant Diwylliant Hyfforddi**

Rhan un: Cyflwyniad i amrywiaeth a chynhwysiant
Rhan dau: Creu amgylchedd sy'n ddiogel yn seicolegol
Rhan tri: Rhagfarn ddiarwybod
Rhan pedwar: Arweinyddiaeth gynhwysol
Rhan pump: Hyfforddiant i berthyn
Rhan chwech: Sefyllfaoedd.

**Diwylliant Hyfforddi - Gwersi ar Gyfer Rheolwyr**

Mae'r gwersi wedi'u dylunio i roi hyder i reolwyr i gael sgyrsiau hyfforddi ac i wybod pryd mae'n briodol gwneud hynny. Mae pedwar o'r gwersi wedi cael eu nodi'n hanfodol ar gyfer holl reolwyr. Sef:

- Cyflwyniad i hyfforddiant
- Nodweddion hyfforddi hanfodol
- Magu hyder a chydberthynas
- Sgyrsiau hyfforddi effeithiol

- Sgyrsiau hyfforddi gyda gweithwyr o bell (ar gyfer y rheolwyr hynny sy'n rheoli timoedd hybrid ac o bell, argymhellwn eich bod yn cwblhau'r modiwl hwn).

# 6 Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i greu cymuned gynhwysol i bawb sy'n byw, gweithio, neu'n ymweld â Chonwy, lle mae gwerth yn cael ei roi ar amrywiaeth a lle na fydd aflonyddu a gwahaniaethu'n cael eu goddef. Rydym yn cydnabod bod yr hyn a wnawn bob dydd yng Nghonwy yn chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl a bod gennym ni ran allweddol yn y gwaith o wella ansawdd bywyd pawb yn ein cymuned.

Rydym eisiau i holl staff deimlo synnwyr o berthyn yn y gwaith ac rydym wedi ymrwymo i greu sefydliad sy'n gwneud defnydd llawn o ddoniau, sgiliau a phrofiadau amrywiol y staff presennol a darpar staff. Ein canolbwynt yw gwreiddio diwylliant o ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb unigol ymhlith staff, ni waeth beth fo'ch cefndir neu'ch profiadau. Mae gennym oll gyfrifoldeb ar y cyd i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## e-Ddysgu

**Fy Nhrin yn Deg** (yn dod yn fuan).

**Modiwlau Amrywiaeth a Chynhwysiant Diwylliant Hyfforddi** (Hanfodion Dysgu ar gyfer holl reolwyr)
Rhan un: Cyflwyniad i amrywiaeth a chynhwysiant
Rhan dau: Creu amgylchedd sy'n ddiogel yn seicolegol
Rhan tri: Rhagfarn ddiarwybod
Rhan pedwar: Arweinyddiaeth gynhwysol
Rhan pump: Hyfforddiant i berthyn
Rhan chwech: Sefyllfaoedd.

**Mynediad at y platfform Diwylliant Hyfforddi**.



## Digwyddiadau Nad Ydynt yn Rhai e-Ddysgu

**Cyflwyniad i Wrth-hiliaeth**
Datblygu gwell dealltwriaeth o hil a hiliaeth, sut y gall hiliaeth ddod i'r golwg a sut y gallwn ni symud tuag at gydraddoldeb hiliol i bawb. Nod y sesiwn hon yw magu hyder pawb i'w galluogi i gymryd camau tuag at greu a chyflawni polisïau ac ymarfer cynhwysol. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu cyflwyno gan No Boundaries drwy MS Teams.
(**Hyfforddiant Gwrth-hiliaeth (conwy.gov.uk)**).

**Cyflwyniad i Gonwy Gynhwysol**
Bydd y ddysgeidiaeth yn eich cyflwyno i'n Cynllun Conwy Gynhwysol ac yn galluogi cyfranogwyr i gyflawni canlyniadau cadarnhaol trwy hyrwyddo ymddygiad cynhwysol o fewn y gweithle. Bydd yn eich cyflwyno at y nodweddion gwarchodedig, yn archwilio'r siwrnai a phwysigrwydd amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb, archwilio diogelwch seicolegol yn y gweithle, deall y cysyniad o ragfarn ddiarwybod a deall gallu diwylliannol a chroestoriadedd.

**Deall Rhagfarn Ddiarwybod i Hyrwyddo Cynhwysiant**
(espresso i reolwyr)
Yn y sesiwn hon byddwch yn archwilio rhagfarn ddiarwybod a sut y gall ddylanwadu ychydig ar eich ymddygiad micro. Byddwch yn ystyried camau ymarferol y gallwch eu cymryd i reoli effaith rhagfarn ddiarwybod ar eich perthnasau a phenderfyniadau fel y gallwch yrru cynhwysiant mewn modd cadarnhaol yn eich tîm.

**Nam ar y Synhwyrau**
Gweithdy ar gyfer gweithwyr sydd â chyswllt â'r cyhoedd i'w galluogi i ryngweithio'n gadarnhaol â phobl sydd â nam ar y synhwyrau. Mae modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o Fyddardod hefyd ar gael ar lwyfan Dysgu@Cymru.

**Cwblhau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb**
Os oes gennych gyfrifoldeb dros gyflwyno neu adolygu strategaethau, polisïau, ymarfer neu weithdrefnau sy'n effeithio ar y gymuned a/neu staff, yna mae'n debygol y byddwch angen cwblhau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. I gael mwy o ganllawiau o ran pryd sydd angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, gweler y ffurflen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Fewnrwyd:
**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**.

Fel arall, gallwch gysylltu â'n Swyddog AD a Chydraddoldeb trwy **cydraddoldebau@conwy.gov.uk** os oes gennych unrhyw gwestiynau yr hoffech eu trafod am Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb penodol.

**Llyfrgell Adnoddau Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant** (yn dod yn fuan)
Bydd yr adnodd hwn ar gael trwy ein tudalennau Mewnrwyd lle byddwn yn rhannu ystod o weminarau, fideos, podlediadau ac adnoddau eraill ar gyfer dysgu hunangyfeiriedig er mwyn cefnogi amryw o arddulliau dysgu.

# 7 Iechyd, Lles a Lles Ariannol

Gwyddwn fod cysylltiadau cryf rhwng iechyd a lles da a’r gallu i fynychu gwaith a chyflawni eich rôl yn effeithiol, gan adnabod bod staff yn darparu gwasanaethau gwell i’n cymuned pan maent yn teimlo’n dda.

Rydym yn cynnig ystod o adnoddau a digwyddiadau dysgu i’ch helpu i gynnal corff iach a meddwl iach.

**Datblygu Cadernid Personol**
Mae datblygu cadernid personol yn bwysig ar gyfer ymdopi’n dda ar adegau heriol. Bydd y digwyddiad hwn yn eich cyflwyno i sgiliau a fydd yn cynyddu hyder yn eich gallu i adfer. Bydd gwella meysydd fel hunanofal, rhwydweithiau cefnogi proffesiynol, ffiniau personol ac osgoi meddyliau negyddol awtomatig yn helpu gyda hyn.

**Deall Gorflino**
Bydd y digwyddiad hwn yn eich helpu chi i ddeall beth yw gorflino, yr arwyddion a’r symptomau i chwilio amdanynt ac adnabod y rhain yn gynnar, yn ogystal â rheoli straen gan ddefnyddio’r model Bwced Straen.

**Ymwybyddiaeth o Ffrindiau Dementia**
Mae Ffrindiau Dementia yn fenter a arweinir gan Gymdeithas Alzheimer sydd â’r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o ddementia a newid y ffordd y mae’r genedl yn meddwl, yn siarad ac yn gweithredu am ddementia.

**Gallwch Helpu yn Awr**
Mae hwn yn gwrs un awr cymorth cyntaf ymarferol i niwed sy’n gysylltiedig â gamblo sydd ar gael i holl reolwyr a gweithwyr i godi ymwybyddiaeth a chyfeirio at adnoddau a chefnogaeth sydd ar gael.

**Unbroken - Ymddygiad sy’n Rheoli ac Ymddygiad Cymhellol Realiti Rhithwir (VR)**
Mae’r hyfforddiant hwn yn defnyddio cyfarpar realiti rhithwir i helpu i wella dealltwriaeth o beth mae dioddefwyr ymddygiad sy’n rheoli ac ymddygiad cymhellol yn ei brofi.



Y nod yw bod mynychwyr yn adnabod arwyddion yn well ac yn ehangu eu gwybodaeth o drosedd domestig o safbwynt gwahanol er mwyn gwarchod dioddefwyr ac erlid troseddwyr yn well. Mae'r sesiwn yn gweithio drwy gludo mynychwyr yn syth i esgidiau dioddefwyr rheolaeth drwy orfodaeth wrth iddynt wisgo pensetiau realiti rhithwir. Mae mynychwyr yn profi nifer o senarios yn seiliedig ar straeon bywyd go iawn, sy'n cael ei chwarae gan actorion, gyda'r mynychwyr yn cael eu hyfforddi i'w weld o safbwynt y dioddefwr. Mae'r sesiwn yn arddangos arwyddion cynnil o reolaeth drwy orfodaeth, gan gynnwys gormodedd o sylw cariadus, chwarae triciau meddyliol a gwrthod cyfathrebu. Mae'r digwyddiad hwn ar gyfer gweithwyr *nad ydynt yn gweithio* o fewn Gofal Cymdeithasol, ar gyfer digwyddiadau Gofal Cymdeithasol dynodedig, ewch i **Dysgu a Datblygu'r Gweithlu - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**.

## Cynllunio ar Gyfer Eich Dyfodol

Gall deall eich buddion pensiwn a theimlo'r gallu i wneud cynlluniau ar gyfer eich dyfodol, helpu i leddfu pryderon ariannol.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**
Mae'r sesiwn hon wedi'i chynllunio i roi trosolwg cyffredinol o'r cynllun pensiwn a'i holl fuddion i aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Cynllunio Ariannol Canol Gyrfa**
Gall edrych ar eich materion ariannol, ar ganol eich gyrfa, roi digon o amser i chi wneud gwahaniaeth mawr i'ch nodau ariannol yn y dyfodol. Mae'r seminar yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i gynllunio'ch materion ariannol rŵan ac yn y dyfodol.

**Seminar Cyn Ymddeol**
I baratoi ar gyfer canlyniadau ymddeoliad, yn enwedig o safbwynt ariannol. Rhoi'r wybodaeth a'r hyder i ddarpar ymddeolwyr addasu i oblygiadau ariannol symud o gyflog i bensiwn.

## Adnoddau

**Cinio a Dysgu Ar-lein Adnoddau'r Menopos gan Henpicked**
Cliciwch yma am gyngor arbenigol ac awgrymiadau ar bob agwedd ar y menopos: **Fideos | Y Canolbwynt Menopos - Gwybodaeth arbenigol, adnoddau defnyddiol, awgrymiadau gwych a straeon merched (henpicked.net)**.

**"Your Care" gan Vivup**
Pa bynnag her iechyd meddwl, corfforol, ariannol neu bersonol rydych yn ei hwynebu, gallwch dderbyn cymorth a chefnogaeth i'ch helpu gydag uchafbwyntiau ac isafbwyntiau bywyd 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Dewch o hyd i ystod eang o arbenigwyr gofal a chymorth yn aros i glywed gennych chi, yn ogystal â mynediad at Ganolbwynt Lles gyda'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch helpu chi ofalu am eich hunain. **Your Care (yourcarewellbeing.net)**.

Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn gynifer neu gyn lleied o weithiau ag y dymunwch, nid oes cyfyngiad ar y cymorth y gallwch ei dderbyn:
- Llinell gymorth 24/7: 0800 023 9387
- Cwnsela wyneb yn wyneb a thros y we
- Llyfrau gwaith hunangymorth (Therapi Ymddygiad Gwybyddol)
- Podlediadau a blogiau
- Cyngor ar ddyledion
- Cyngor ac awgrymiadau "Ask Bill" ar sut i leihau eich biliau cyfleustodau
- Ap "Bright Sky" ar gyfer cam-drin domestig.

**My Money Matters** (ar gael i aelodau gweithredol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unig)
Fel rhan o'ch buddion gweithiwr, gallwch ddod o hyd i gefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer pob cam o'ch siwrnai ariannol, gan ddechrau gyda gwiriad iechyd ariannol syml. O addysg ariannol arbenigol i wasanaethau a chynnyrch newydd cyffrous, y canolbwynt un alwad hwn yw eich canllaw chi at les ariannol. Yn ogystal â'r gwasanaeth Rhannu Cost Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i'ch helpu chi i gynllunio ar gyfer eich ymddeoliad gyda mwy! **www.my-money-matters.co.uk**.


**Conwy yn Malio**
Rydym wedi creu tudalen ar ein Mewnrwyd sy'n dod ag ystod o adnoddau ynghyd i gefnogi eich iechyd a lles. Gallwch gael mynediad at y rhain yma, yn ogystal â thrwy eich ffôn: **Conwy yn Malio**.

Gellir archebu'r holl ddigwyddiadau drwy system Hunanwasanaeth iTrent. Gallwch wirio argaeledd ac archebu eich lle yma: **ESS - Mewngofnodi (conwy.gov.uk)**.

The Art of Public Speaking

A MasterCourse in Communication

art of brilliance




## 8 Sgiliau Cyfathrebu a Gweithio

Mae'r cynnig dysgu o fewn y maes hwn wedi'u hanelu tuag at gefnogi'r sgiliau, gwybodaeth a gallu hanfodol y byddwch eu hangen i lwyddo yn eich rôl.

Gall y rhain fod yn gyfuniad o sesiynau hyfforddi hanner diwrnod, diwrnod llawn neu ddwy awr, a elwir yn sesiynau espresso.

**The Art of Public Speaking** a ddarperir gan **The Art of Brilliance** **The Art of Public Speaking | Art of Brilliance**
Eich cysylltu chi â'ch hunan gorau, dilys, fel y gallwch chi gysylltu'n well â'r bobl rydych chi'n siarad â nhw. Yn ymdrin â'r 4 maes allweddol o feddylfryd, paratoi, cynnwys a thechneg.

**Gwisgo Chwe Chap Meddwl**
Pan wynebir chi â phroblemau mae'n helpu i gael ymagwedd systematig. Yn y sesiwn hwn byddwch yn archwilio techneg o feddwl sydd wedi ei phrofi: Chwe Chap Meddwl. Mae'n ffordd wych o edrych ar broblem o nifer o wahanol safbwyntiau ac yn bwerus iawn wrth ei ddefnyddio mewn cyfarfodydd tîm. Byddwch yn dysgu sut i hwyluso sesiwn Chwe Chap Meddwl.

**Cael Gwared ar Oedi**
Mae darparu canlyniadau yn golygu gweithgaredd amserol, ond rydym oll yn euog o osgoi tasgau heriol neu ddechrau sgwrs anodd! Mae'r sesiwn hon yn adlewyrchu ar achosion ac effaith oedi. Byddwch yn archwilio strategaethau ymarferol i fabwysiadu a datblygu meddylfryd a fydd yn eich galluogi i gymryd menter a bod yn rhagweithiol.

**Diwrnod Ysgrifennu Adroddiadau a Democratiaeth**
A oes angen i chi baratoi adroddiadau a'u cyflwyno i Aelodau Etholedig yn unrhyw un o'n cyfarfodydd democratiaeth? Bydd y digwyddiad dysgu hwn yn eich helpu i ddeall sut i baratoi eich adroddiad, beth i'w gynnwys, a beth sydd heb ei gynnwys. Yna cewch gyfle i weithio gyda chydweithwyr, defnyddio'r offer yn Siambr y Cyngor ac ymarfer eich cyflwyniad.

**Contractau a Chaffael**
Sesiwn codi ymwybyddiaeth/gwybodaeth am gaffael nwyddau a gwasanaethau yng Nghonwy, gan gynnwys gweithgaredd rhyngweithiol ar y defnydd o wefan gwerthwchigymru.

Bydd y Ddeddf Caffael newydd 2023 yn fyw o Hydref 2024. Er mwyn helpu i ddeall y newidiadau, mae cyfres o 'ddiferion gwybodaeth' ar gael i ddarparu trosolwg lefel uchel, wedi'i anelu at y rhai sydd â rhyngweithiadau rheolaidd â chaffael. Gallwch gael mynediad at rhain yma: **Diferion Gwybodaeth Trawsnewid Caffael Cyhoeddus Swyddogol - GOV.UK (www.gov.uk)**.






# 9 Sgiliau Digidol

**Cyflwyniad i Microsoft Teams**
Gallwch weld fideos hyfforddi byr ar ein Mewnrwyd - **Hyfforddiant Cyflwyniad Microsoft Teams (conwy.gov.uk)**.

**Defnyddio Excel yn y Gwaith** (yn dod yn fuan)

**Dod i Adnabod Eich TG**
Bydd y sesiwn ymarferol hanner diwrnod yn eich helpu chi i ddeall sgiliau sylfaenol offer a systemau TG a ddefnyddir yng Nghonwy, gan gynnwys y defnydd o ffolderi a storio ffolderi, MS Teams ac archebu ystafelloedd cyfarfod.

**Y Cyfryngau Cymdeithasol**
Mae'r digwyddiad ymarferol hwn ar gyfer unrhyw un sy'n rheoli a chreu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Bydd yn cynnwys canllawiau arddull, creu cynnwys, gwybodaeth a hawlfraint, sut i ddefnyddio Canva, hysbysebu ar Facebook a mewnwelediad.

**Hygyrchedd Digidol**
Mae'r sesiwn hon ar gyfer y rhai sy'n creu ac yn cyhoeddi cynnwys ar gyfer ein gwefan, neu'n comisiynu cynnwys neu ddogfennau i'w rhannu drwy unrhyw ddull digidol, gan gynnwys drwy e-bost. Diben y sesiwn ymarferol hon yw sicrhau bod ein gwefan a'n dogfennau ar-lein yn hygyrch i bob defnyddiwr, gan gynnwys y rhai ag anableddau.

**Canva**
Mae'r gweithdy hwn ar gyfer pob swyddog sy'n defnyddio Canva. Bydd yn helpu i ddatblygu sgiliau dylunio, sut i ddefnyddio ein brand Conwy, creu graffeg cyfryngau cymdeithasol, posteri ar gyfer argraffu a chreu cyflwyniadau.

# 10 Sesiynau Dysgu Espresso

Sesiynau bywiog, gyda'r dewis i fynychu sesiynau unigol neu gyfres o sesiynau dysgu sy'n addas i'ch anghenion. Mae rhai o'n sesiynau ar gyfer rheolwyr yn unig, mae eraill yn agored i holl weithwyr. Mae'r rhai sydd wedi'u dynodi ar gyfer gweithwyr mewn rôl rheoli atebol, wedi'u hamlygu isod.

Eleni, rydym wedi rhannu'r cynnig i dri diwrnod: Diwrnod Meddwl, Diwrnod Gweithredu a Diwrnod Sgwrs Conwy.

## Diwrnod Meddwl

- Codi Eich Safbwynt Strategol (espresso i reolwyr)
- Gwisgo Chwe Chap Meddwl
- Datblygu Eich Deallusrwydd Emosiynol.

**Codi Eich Safbwynt Strategol** (espresso i reolwyr)
Wrth i'r amgylchedd gweithredu llywodraeth leol ddod yn fwy anwadal, rhoddir mwy o bwys ar allu'r rheolwr i gymryd safbwynt mwy strategol. Mae yna angen i bob gweithiwr i ddatblygu goddefgarwch tuag at newid ac amwysedd a chreu safbwynt strategol cryfach. Bydd y gweithdy hwn yn archwilio natur yr amgylchedd "VUCA" (anwadalrwydd, ansicrwydd, newid ac amwysedd) a'r sgiliau strategol sydd eu hangen i'w lywio'n fwy effeithiol.

**Gwisgo Chwe Chap Meddwl**
Pan wynebir chi â phroblemau mae'n helpu i gael ymagwedd systematig. Yn y sesiwn hwn byddwch yn archwilio techneg o feddwl sydd wedi ei phrofi: Chwe Chap Meddwl. Mae'n ffordd wych o edrych ar broblem o nifer o wahanol safbwyntiau ac mae'n hynod o bwerus pan gaiff ei defnyddio mewn cyfarfodydd tîm. Byddwch yn dysgu sut i hyrwyddo sesiwn Chwe Chap Meddwl.

**Datblygu Eich Deallusrwydd Emosiynol**
Bydd y sesiwn yn ystyried pwysigrwydd deallusrwydd emosiynol ac yn eich galluogi chi i feincnodi eich hun yn erbyn fframwaith defnyddiol. Byddwch yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol deallusrwydd emosiynol ac yn archwilio ystod o ymagweddau ymarferol a chamau gweithredu all hybu eich gallu i reoli eich emosiynau eich hun o dan bwysau a dylanwadu'n gadarnhaol ar emosiynau'r rhai hynny sydd o'ch cwmpas.

## Diwrnod Gweithredu

- Darparu Adborth Yn Gadarnhaol (espresso i reolwyr)
- Deall Rhagfarn Ddiarwybod I Hyrwyddo Cynhwysiant (espresso i reolwyr)
- Cael Gwared Ar Oedi.

**Darparu Adborth yn Gadarnhaol** (espresso i reolwyr)
Mae'r sesiwn hon yn darparu proses ar gyfer cyflwyno adborth negyddol mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddiddorol ac yn broffesiynol. Mae hefyd yn dangos i chi sut i gymryd perchnogaeth o'r adborth ac ystyried sut y bydd yn cael ei dderbyn ac addasu eich darpariaeth yn unol â hynny - heb golli'r effaith sydd ei hangen arnoch.

**Deall Rhagfarn Ddiarwybod i Hyrwyddo Cynhwysiant** (espresso i reolwyr)
Yn y sesiwn hon byddwch yn archwilio rhagfarn ddiarwybod a sut all ddylanwadu ar eich ymddygiad micro. Byddwch yn ystyried camau ymarferol y gallwch eu cymryd i reoli effaith rhagfarn ddiarwybod ar eich perthnasau a phenderfyniadau fel y gallwch yrru cynhwysiant mewn modd cadarnhaol yn eich tîm.

**Cael Gwared ar Oedi**
Mae cyflawni canlyniadau yn gofyn am weithgarwch amserol, ond rydym ni i gyd yn euog o osgoi tasg heriol neu gychwyn sgwrs anodd! Mae'r sesiwn hwn yn myfyrio ar achosion ac effaith oedi. Byddwch yn archwilio strategaethau ymarferol i'w mabwysiadu i ddatblygu meddylfryd i'ch galluogi i gymryd y cam a bod yn rhagweithiol.

## Diwrnod Sgwrs Conwy

- Hwyluso Sgyrsiau Datblygu Gyrfa (espresso i reolwyr)
- Sgwrs Perchnogi Eich Datblygiad Gyrfa
- Paratoi Ar Gyfer Eich Sgwrs Perfformiad Swydd Eich Hun.


**Hwyluso Sgyrsiau Datblygu Gyrfa** (espresso i reolwyr)
Sut gallwch chi wneud y sgyrsiau hyn yn ystyrlon i bob aelod o'r tîm? Bydd y sesiwn hon yn sicrhau bod gennych yr offer sydd eu hangen arnoch i deilwra pob sgwrs a'r hyder i arwain aelod o'ch tîm wrth iddynt archwilio eu cynllun gyrfa.

**Sgwrs Perchnogi Eich Datblygiad Gyrfa** (nid yw'r rheolwyr sydd wedi mynychu'r sesiwn hwyluso uchod, angen mynychu digwyddiad hwn)
Mae'r sesiwn hon yn cyflwyno'r cylch datblygu gyrfa ac yn eich herio i feddwl am y cyfeiriad gyrfa sy'n iawn i chi. Byddwch yn cael pecyn cymorth ymarferol i'ch helpu i gael y gorau o sgyrsiau am eich datblygiad gyrfa.

**Paratoi ar Gyfer Eich Sgwrs Perfformiad Swydd Eich Hun**
Bydd y sesiwn hon yn rhoi amrywiaeth o ffyrdd ymarferol i chi fyfyrio ar eich perfformiad a'i werthuso; rhagweld ac ymateb i adborth a chymryd rhan wrth adlinio eich amcanion i flaenoriaethau newidiol.

Gellir archebu'r holl ddigwyddiadau drwy system Hunanwasanaeth iTrent. Gallwch wirio argaeledd ac archebu eich lle yma:
**ESS - Mewngofnodi (conwy.gov.uk)**.





### Dyma Craig, un o'n Harwyr TG

Ar ôl gyrfa lwyddiannus fel uwch-reolwr am dros ugain mlynedd gyda Tesco, fe benderfynais ddilyn her newydd a gyrfa ym maes TG, felly fe ymunais â thîm Desg Gwasanaeth TG yng Nghonwy (y rhai sydd ar ben arall y ffôn pan mae angen help).

Mewn ychydig dros ddwy flynedd rydw i wedi symud ymlaen i fod yn Uwch Ddadansoddwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol ac wedi dechrau cwrs gradd BSc fel prentis mewn seibrddiogelwch ymarferol gyda Phrifysgol Bangor. Mae Conwy'n ariannu'r cwrs ac yn rhoi amser imi astudio yn ystod oriau gwaith.

# 11 Cefnogi Eich Datblygiad Gyrfa

Rydym wrth ein boddau'n gweld ein gweithwyr yn tyfu mewn gwybodaeth, sgiliau a hyder. Os ydych yn gweithio tuag at y cam nesaf yn eich gyrfa, gall y cyfleoedd dysgu hyn fod yn berffaith i chi.

## Llwyddo yn Eich Cyfweliad

Bydd y sesiwn hon yn eich cefnogi gyda'r broses ymgeisio a chyfweld. Byddwch yn dysgu sut i ragweld cwestiynau'r cyfwelydd a sut i baratoi i wneud argraff ar y cyfwelydd gyda'ch gallu i ymateb mewn ffordd strwythuredig gyda ffocws.

## Sgwrs Perchnogi Eich Datblygiad Gyrfa

Mae'r sesiwn hon yn cyflwyno'r cylch datblygu gyrfa ac yn eich herio i feddwl am y cyfeiriad gyrfa sy'n iawn i chi. Byddwch yn cael pecyn cymorth ymarferol i'ch helpu i gael y gorau o sgyrsiau am eich datblygiad gyrfa.

## Paratoi ar Gyfer Eich Sgwrs Perfformiad Swydd Eich Hun

Bydd y sesiwn hon yn rhoi amrywiaeth o ffyrdd ymarferol i chi fyfyrio ar eich perfformiad a'i werthuso; rhagweld ac ymateb i adborth a chymryd rhan wrth adlinio eich amcanion i flaenoriaethau newidiol.

# 12 Datblygiad Rheoli

Mae'r cyfleoedd dysgu hyn wedi cael eu teilwra tuag at rolau sydd â lefel o gyfrifoldeb rheoli atebol. Os ydych chi yn eich rôl goruchwylio gyntaf neu'r rheolwr tîm profiadol, bydd y cyfleoedd hyn yn eich helpu i ddatblygu neu fireinio eich sgiliau ymhellach.

## Cyfarfod Sefydlu i Reolwyr Newydd

Gall ennill sgiliau a gwybodaeth wrth jyglo gofynion rôl newydd fod yn dipyn o her. Bydd y digwyddiad hwn yn cyflymu'r broses ddysgu honno drwy gynnig fframweithiau clir i'w mabwysiadu, a nodi sgiliau allweddol i'w cymhwyso. Bydd fforwm agored hefyd lle gellir trafod heriau allweddol a chynnig cyngor.

## Rheoli'r Rhai Anodd eu Rheoli (darperir gan ACAS)

Mae ymddygiadau nad ydynt yn cael eu herio am eu bod yn anodd ac yn eithafol yn cyfrannu at forâl gwael, gostyngiad mewn perfformiad a mwy o drosiant staff, gyda'r perygl o ddiweddu mewn tribiwnlys cyflogaeth. Bydd y digwyddiad ymarferol a rhyngweithiol hwn yn helpu'r rhai sy'n bresennol i adnabod ymddygiad heriol, cydnabod yr effaith ar unigolion a'r sefydliad ac arfer strategaethau i reoli'r rhain yn effeithiol.

## Rheoli Gorflino a Chynnal Diwylliant Tîm

Bydd y digwyddiad hwn yn eich helpu chi i nodi beth yw gorflino, arwyddion corfforol a meddyliol gorflino ac effaith gorflino ar y gweithlu. Bydd yn eich helpu chi i adnabod arwyddion straen ynoch chi eich hun a'ch timau yn rhagweithiol a chyflwyno'r model Bwced Straen i helpu i reoli straen.

## Egluro Gwerthuso Swyddi

Bydd y digwyddiad hwn yn rhoi trosolwg i chi o'r broses werthuso swyddi, dealltwriaeth o'r ffactorau a phwysigrwydd eich ymwneud â'r broses.

## Sesiynau Espresso i Reolwyr... Joch Bach o Ddatblygiad!

Sesiynau bywiog, gyda'r dewis i fynychu sesiynau unigol neu gyfres o sesiynau dysgu sy'n addas i'ch anghenion, neu'r holl ddigwyddiadau a ddarperir ar y diwrnod. Mae rhai o'n sesiynau ar gyfer rheolwyr yn unig, mae eraill yn agored i holl weithwyr, felly gwiriwch y dudalen ddynodedig i weld yr holl ddewisiadau.

## Cynyddu Eich Safbwynt Strategol

Wrth i'r amgylchedd gweithredu llywodraeth leol ddod yn fwy anwadal, rhoddir mwy o bwys ar allu'r rheolwr i gymryd safbwynt mwy strategol. Mae yna angen i bob gweithiwr i ddatblygu goddefgarwch tuag at newid ac amwysedd a chreu safbwynt strategol cryfach. Bydd y gweithdy hwn yn archwilio natur yr amgylchedd "VUCA" (anwadalrwydd, ansicrwydd, newid ac amwysedd) a'r sgiliau strategol sydd eu hangen i'w lywio'n fwy effeithiol.

## Deall Rhagfarn Ddiarwybod i Hyrwyddo Cynhwysiant

Yn y sesiwn hon byddwch yn archwilio rhagfarn ddiarwybod a sut all ddylanwadu ar eich ymddygiad micro. Byddwch yn ystyried camau ymarferol y gallwch eu cymryd i reoli effaith rhagfarn ddiarwybod ar eich perthnasau a phenderfyniadau fel y gallwch yrru cynhwysiant mewn modd cadarnhaol yn eich tîm.

## Hwyluso Sgyrsiau Datblygu Gyrfa

Sut gallwch chi wneud y sgyrsiau hyn yn ystyrlon i bob aelod o'r tîm? Bydd y sesiwn hon yn sicrhau bod gennych yr offer sydd eu hangen arnoch i deilwra pob sgwrs a'r hyder i arwain aelod o'ch tîm wrth iddynt archwilio eu cynllun gyrfa.

## Darparu Adborth yn Gadarnhaol

Mae'r sesiwn hon yn darparu proses ar gyfer cyflwyno adborth negyddol mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddiddorol ac yn broffesiynol. Mae hefyd yn dangos i chi sut i gymryd perchnogaeth o'r adborth ac ystyried sut y bydd yn cael ei dderbyn ac addasu eich darpariaeth yn unol â hynny - heb golli'r effaith sydd ei hangen arnoch.

## Rheoli Straen a Chyflwyno'r Offer Asesu Lles (yn dod yn fuan)

## Polisïau a Gweithdrefnau

Dysgu i ymgyfarwyddo â system AD/Cyflogau a pholisïau cyflogaeth mewnol.

## Hunan Wasanaeth Rheolwyr iTrent

Mae'r sesiwn hon wedi'i dylunio i ddarparu trosolwg i reolwyr o swyddogaeth a sut i lywio'r system iTrent. Bydd mynychu'r sesiynau hyn yn gwella eich gwybodaeth a lleihau gofynion cefnogi.

## Polisïau Cyflogaeth

**Rheoli Presenoldeb**
Dysgu sut i reoli'r broses absenoldeb yn llawn, yn ogystal â chefnogi lles staff a dychwelyd i'r gwaith.

**Rheoli'r Broses Ddisgyblu**
Yn ogystal â dod yn gyfarwydd â'r Polisi Disgyblu, byddwch yn dysgu'r dull gorau o gael y 'gair tawel' hwnnw er mwyn cael gwared ar unrhyw broblemau posibl.

**Sut i Reoli Cwynion**
Dysgu sut i reoli cwynion gyda'r nod o ddatrys materion ar y cam anffurfiol.

**Recriwtio a Dethol**
Canolbwyntio ar y broses recriwtio a'r dewisiadau sydd ar gael i chi, gan gynnwys diogelu lle byddwch yn deall y weithdrefn ac yn dysgu am y cyfreithlondebau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â'i chael yn anghywir.

**Rheoli'r Broses Galluogrwydd**
Deall ein Polisi Gwella Perfformiad a sut i ddefnyddio.

## Fforwm Uwch Reolwyr

Mae ein Fforwm Uwch Reolwyr yn gyfle i reolwyr o fewn yr Awdurdod, sy'n adrodd i Benaethiaid Gwasanaeth, gwrdd wyneb yn wyneb bob chwarter.

Wedi'i gynnal gan y Rheolwr Datblygu Sefydliad Corfforaethol, a'i fynychu gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Uwch Dîm Rheoli, mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i:

- Rwydweithio gyda chydweithwyr o du allan i'ch gwasanaeth
- Cyfathrebu'n agored gyda'n tîm arweinyddiaeth gyda diweddariadau rheolaidd gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Strategol Cyllid
- Rhannu gwybodaeth a'r gwersi a ddysgwyd gan gydweithwyr mewnol
- Datblygu a dysgeidiaeth newydd gan siaradwyr allanol
- Cyfle i drafod cynlluniau hirdymor, blaenoriaethau, ac alinio'r rhain gyda'n Cynllun Corfforaethol
- Cydweithio i ddatrys problemau a rhannu syniadau.

Mae aelodaeth y fforwm hwn drwy wahoddiad yn unig. Rhaid i wasanaethau hysbysu **hyfforddiant@conwy.gov.uk** os oes newid mewn swydd, er mwyn diweddaru'r aelodaeth o'u gwasanaeth.

Gellir archebu'r holl ddigwyddiadau drwy system Hunanwasanaeth iTrent. Gallwch wirio argaeledd ac archebu eich lle yma:
**ESS - Mewngofnodi (conwy.gov.uk)**.

# 13 Hyfforddiant a Chynllun Mentora Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau

Mae'r Tîm Moderneiddio Corfforaethol yn trefnu ac yn darparu hyfforddiant mewnol, ac yn trefnu hyfforddiant allanol ar reoli prosiectau a rhaglenni er mwyn sicrhau dull cyson tuag at reoli prosiectau yng Nghonwy. Mae darpariaeth fewnol yn cynnwys Cyflwyniad i Reoli Prosiectau ac Egluro'r Broses o Reoli Prosiectau.

**Cyflwyniad i Reoli Prosiectau**
Mae'r sesiwn hon wedi'i hanelu tuag at holl weithwyr Conwy a fyddai'n dymuno cael dealltwriaeth o'r ffordd mae rhaglenni a phrosiectau yn cael eu rheoli yng Nghonwy.

**Egluro'r Broses o Reoli Prosiectau**
Mae'r sesiwn hon wedi'i hanelu tuag at staff sy'n rheoli, cefnogi neu'n rhan o brosiectau. Bydd y sesiwn yn rhoi trosolwg manwl o Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau Conwy, meddalwedd prosiect CAMMS ac yn rhoi enghreifftiau go iawn o brosiectau wedi'u cwblhau.

**Meddalwedd Prosiect CAMMS**
I gael cefnogaeth ar gyfer defnyddio meddalwedd prosiect CAMMS, cysylltwch â **ppm@conwy.gov.uk** i gofrestru eich diddordeb.

**Hyfforddiant PRINCE2 a Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus**
Rydym yn trefnu, lle y bo'n briodol, hyfforddiant allanol PRINCE2 a Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus. Fodd bynnag, mae angen bodloni meini prawf cymhwyso penodol **(meini prawf cymhwyso).** Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwyso, cysylltwch â **ppm@conwy.gov.uk** i gofrestru eich diddordeb.

**Cynllun Mentora Rheoli Prosiectau**
Cynigir cynllun mentora rheoli prosiectau i reolwyr prosiect sydd newydd eu penodi a rheolwyr prosiect presennol ar draws y Cyngor. Fel mentoriaid, bydd y Tîm Moderneiddio Corfforaethol yn rhoi arweiniad, goruchwyliaeth ac anogaeth. **Cliciwch yma** am fwy o wybodaeth am y cynllun mentora.

## Rheoli Ein Perfformiad

Mae gennym nifer o adnoddau a chanllawiau ar y Fewnrwyd i'ch cefnogi chi i gynllunio gwasanaeth, rheoli risg, ymgysylltu, CAMMS, a rheoli prosiectau. Gallwch gael mynediad at yr adnoddau yma **Rheoli Ein Perfformiad (conwy.gov.uk)**.

Cysylltwch â **tgdc@conwy.gov.uk** i drefnu unrhyw rai o'r canlynol:

**Rheoli Risg**
Sicrhau eich bod yn cael gwybod am y Polisi Rheoli Risg a bod gennych y wybodaeth i nodi, rheoli ac uwchgyfeirio risgiau.

**Ymgysylltu â'r Gymuned**
Cyflwyniad i egwyddorion allweddol ymgysylltu â'r gymuned, ein dull yng Nghonwy a sut y gellir ei gymhwyso yn y gwaith rydym yn ei gyflawni. Bydd adnoddau a gwybodaeth ddefnyddiol yn cael eu rhannu, a fydd yn eich cefnogi chi i gyflawni gweithgareddau a chael mynediad at adborth o weithgareddau ymgysylltu eraill, a all eich cynorthwyo chi.

**Cynllunio Gwasanaethau**
Sut i ddefnyddio canlyniadau'n cyfrif i ddatblygu cynllun gwasanaeth, gan gynnwys datblygu canlyniadau, camau gweithredu a mesurau.

# 14 Eisiau Bod yn Un o Filiwn? Dysgwch Gymraeg!

Rydym yn falch o'n diwylliant Cymreig ac yn falch fod Conwy yn Gyngor dwyieithog. Rydym yn angerddol am eich cefnogi a'ch annog chi i ddefnyddio'r Gymraeg beth bynnag yw eich lefel. Rydym eisiau i bawb ymuno â ni a defnyddio ychydig mwy o Gymraeg mewn bywyd bob dydd, lle bynnag ydych chi ar eich siwrnai Cymraeg. Felly gyda'n gilydd, rydym oll yn rhan o nod Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Beth am ddod yn un o filiwn?

Mae Tîm yr Iaith Gymraeg yma i gefnogi pawb sydd eisiau dysgu neu wella eu Cymraeg. Rydym yn cynnig **dosbarthiadau am ddim** ar bob lefel, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Anfonwch neges atom ni **dysgucymraeg@conwy.gov.uk** a byddwn yn ymateb gyda dewisiadau hyblyg i chi cyn gynted â phosibl.

Amdani!



# 15 Datblygiad Trwy Fframweithiau Prentisiaeth

Mae prentisiaethau yn rhaglenni hyfforddi yn y gwaith sy'n arwain at gymhwyster cydnabyddedig ac yn addas ar gyfer holl weithwyr; aelod o staff newydd wedi'i recriwtio i swydd prentisiaeth neu weithiwr presennol sydd eisiau uwchsgilio.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'n darparwyr addysg lleol i gefnogi gweithwyr newydd a phresennol i uwchsgilio trwy fframweithiau prentisiaeth.

Mae'r cymwysterau sydd ar gael yn cynnwys ystod o bynciau a lefelau o gymwysterau gwasanaeth i gwsmeriaid, cyfrifeg i arweinyddiaeth a rheoli. Darperir y rhain trwy ddull dysgu cyfun yn y gwaith yn erbyn y safonau a'r modiwlau sy'n creu'r fframwaith prentisiaeth.

Bydd gweithwyr yn cyflawni'r modiwlau drwy ennill ac arddangos sgiliau yn y gweithle a gan ddangos tystiolaeth o'r rhain drwy bortffolio o dystiolaeth, yn ogystal â phresenoldeb mewn sesiynau dysgu ar gyfer y rhai.

Bydd gweithwyr yn cael eu cefnogi gan Ymgynghorydd Dysgu o'r coleg a fydd yn cwrdd â phob gweithiwr yn eu lleoliad gwaith yn ôl yr angen. Mae hyn yn galluogi'r gweithwyr i weithio ar gyflymdra sy'n briodol iddynt hwy a'u hamgylchiadau. Mae'r cymwysterau yn cymryd oddeutu 18-24 mis i'w cwblhau, yn dibynnu ar ofynion a lefel y fframwaith.

Bydd gan reolwyr atebol ran ganolog i'w chwarae o ran cefnogi gweithwyr sy'n cychwyn ar yr hyfforddiant, gyda'r disgwyl i'r rheolwr atebol allu helpu canfod cyfleoedd i'r gweithiwr ennill profiad mewn meysydd sydd, o bosib, yn rhan uniongyrchol o'u swydd. Byddant hefyd yn cynnig cymorth hyfforddi ac yn canfod cyfleoedd hyfforddi eraill a allai gefnogi eu dysgu.

Mae'n bwysig i reolwyr a gweithwyr gymryd amser i ddeall y safonau o fewn y fframwaith, i sicrhau y gallwn ddarparu'r profiad ymarferol a chymhwysedd y sgiliau i fodloni'r gofynion cymhwyster.

Rydym yn gweithio'n agos gyda darparwyr addysg lleol i ddarparu'r uchod. Gallwch ddysgu mwy yma: **Datblygu trwy fframweithiau prentisiaeth (conwy.gov.uk)**.




## 16 Llwyfan Dysgu Digidol Diwylliant Hyfforddi

Mae Diwylliant Hyfforddi yn llwyfan dysgu digidol sy'n cynnal gwersi hyfforddi ar gyfer rheolwyr a modiwlau meddylfryd ar gyfer holl weithwyr, er mwyn eich grymuso chi i ddatgloi eich potensial a ellir cael ei rwystro yn aml gan eich meddylfryd.

Mae'r gwersi sydd ar gael yn galluogi rheolwyr i ddatblygu eu sgiliau hyfforddi ar draws ystod o feysydd a fydd yn sail i fframwaith Sgwrs Conwy. Bydd datblygu sgiliau hyfforddi yn darparu adnoddau, technegau a dulliau y mae rheolwyr efallai eisiau teimlo'n hyderus i gynnal sgyrsiau rheolaidd gyda gweithwyr.

Mae 24 modiwl byr ar feddylfryd ar gael i holl weithwyr gael mynediad atynt. Gallwch ddewis pwnc sydd yn atseinio gyda'r mwyafrif ohonoch. Hefyd gellir aseinio modiwlau gan eich rheolwyr atebol, wedi'u nodi drwy eich sgyrsiau.

**Diwylliant Hyfforddi | Llwyfan**

# 17 Gweithio'n Ddiogel

Mae eich diogelwch, iechyd a lles staff yn bwysig iawn i ni. Mae ystod o gyrsiau yn cael eu darparu gan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol sy'n ymdrechu i sicrhau nad yw unrhyw un yn dod i'r gwaith i gael eu niweidio'n gorfforol nac yn feddyliol gan y gwaith y gofynnir iddynt ei wneud. Ni ddylai staff gyflawni tasgau cyn cwblhau'r hyfforddiant priodol.

**Codi a Symud yn Gorfforol L2**
Sesiwn ymarferol i bawb sy'n cyflawni gweithgareddau codi a symud yn gorfforol yn y gwaith, gan roi cyflwyniad i beryglon codi a symud, y risgiau cysylltiedig, a'r rheolaethau sydd ar gael. Sicrhau bod gweithgareddau codi a symud yn gorfforol yn cael eu cynnal yn ddiogel.

**Codi a Symud yn Gorfforol i Oruchwylwyr - Gwrthrychau Difywyd**
Sesiwn ymarferol Codi a Symud yn Gorfforol L2 i bawb sy'n cyflawni gweithgareddau codi a symud yn gorfforol yn y gwaith, gan roi cyflwyniad i beryglon codi a symud, y risgiau cysylltiedig, a'r rheolaethau sydd ar gael. Sicrhau bod gweithgareddau codi a symud yn gorfforol yn cael eu cynnal yn ddiogel. Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi ymwybyddiaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, goruchwylwyr a rheolwyr sydd â chyfrifoldeb am asesu neu reoli risg mewn perthynas â chodi a symud yn gorfforol. Rhaid i'r rhai sy'n mynychu fod wedi cwblhau Codi a Symud yn Gorfforol L2.

**Cydlynwyr Diogelwch Tân**
Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i ddarparu hyfforddiant ac arweiniad i Gydlynwyr Diogelwch Tân. Bydd y cwrs yn diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau a pha wiriadau tân y dylid eu cynnal i gydymffurfio a deddfwriaeth diogelwch tân.

**Asesiad Risg COSHH**
Mae'r digwyddiad hwn wedi'i anelu at y rhai sydd angen cyflawni Asesiadau Risg COSHH ar gyfer sylweddau sydd yn berygl at iechyd yn y gwaith. Mae'n eu cyflwyno i'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r sylweddau hynny, y risgiau a'r rheolaethau sydd ar gael a beth i'w ddisgwyl o Asesiad Risg COSHH.

**Rheoli Ymddygiad**
Nod y cwrs hwn yw galluogi cyfranogwyr i gynnal asesiad risg addas a digonol o sefyllfaoedd a all gynnwys rheoli ymddygiad. Bydd yn canolbwyntio ar atal ac mae wedi'i gynllunio ar gyfer staff y mae'n ofynnol iddynt ryngweithio â'r cyhoedd mewn sefyllfaoedd a allai o bosibl arwain at sefyllfaoedd sy'n gwrthdaro.

**Cynllun Ymwybyddiaeth Gyrwyr Bysiau Mini (MiDAS)**
Yn dilyn newid mewn deddfwriaeth, dylai gwasanaethau bellach gofrestru staff yn uniongyrchol gyda Chymdeithas Cludiant Cymunedol a threfnu asesiad ymarferol yn uniongyrchol gyda darparwr. **Moderneiddio MiDAS - Cymdeithas Cludiant Cymunedol (ctauk.org)**.

**Cwrs Ymarferol ar Ddiffoddyddion Tân**
Mae'r sesiwn ymarferol hon wedi'i gynllunio i wella ymwybyddiaeth o weithdrefnau diogelwch tân a chynorthwyo staff i ddelio'n hyderus ac yn ddiogel gydag unrhyw sefyllfa a allai godi neu y gellid dod wyneb yn wyneb â hi o ganlyniad i dân.

**Cydlynwyr Diogelwch Safle**
Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i ddarparu hyfforddiant ac arweiniad i Gydlynwyr Diogelwch Safle. Bydd y cwrs yn diffinio rolau a chyfrifoldebau, fel yr amlinellir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a pha wiriadau dylid eu cyflawni i gydymffurfio â Safonau Cydymffurfio Iechyd a Diogelwch (ffeil diogelwch safle).

**Ymwybyddiaeth Asbestos**
Bydd cynnwys craidd y cwrs yn ymdrin â mathau a defnydd o asbestos, effeithiau iechyd a pheryglon, y defnydd o asbestos mewn adeiladau a lleoliadau, a dogfennau a deddfwriaeth. Mae'r cwrs yn cynnwys ymwybyddiaeth ymarferol a chydnabyddiaeth o fathau o asbestos, effeithiau iechyd a'r rhagofalon/trefnau i'w dilyn.

**Defnydd Diogel o Ysgolion a'u Harchwilio**
Mae yna risgiau o weithio ar uchder ac mae'r sesiwn hon yn archwilio sut mae'n rhaid rheoli'r rhain. Mae'n egluro pan fydd ysgolion yn addas a sut i'w gosod a'u defnyddio'n ddiogel.

**Ymchwilio i Ddamweiniau**
Mae'r hyfforddiant hwn ar gyfer y rhai sy'n cynnal ymchwiliadau damweiniau a damweiniau a fu bron â digwydd yn eu maes gwasanaeth ac sydd â mynediad i'r Modiwl Digwyddiadau yn CAMMS i uwchlwytho'r




dystiolaeth a chofnodi'r canfyddiadau a'r casgliadau. Mae'r rhaglen yn darparu technegau cadarn y gellir eu hymgorffori yng ngweithdrefnau'r Cyngor i wneud ymchwilio i ddamweiniau yn fwy strwythuredig a chyson.

**Hyfforddiant Cymorth Cyntaf**
Cyswllt: **first.aidH&S@conwy.gov.uk** 01492 577900

- Cymorth Cyntaf Brys (1 diwrnod)
- Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (2 ddiwrnod gloywi)
- Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 diwrnod)
- Cwrs Gloywi Blynyddol Cymorth Cyntaf (3 awr).

Dilynwch y ddolen isod i gael gwybodaeth ar bob cwrs, gan gynnwys lleoliad a chost y cwrs: **Cyrsiau Cymorth Cyntaf - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**.

**Cwrs Gweithio'n Ddiogel IOSH**
Mae'r cwrs undydd hwn yn canolbwyntio ar pam fod iechyd a diogelwch yn bwysig, a sut all unigolion wneud gwahaniaeth go iawn i'w lles eu hunain ac eraill trwy newid eu hymddygiad. Mae wedi'i lunio ar gyfer staff heb unrhyw gyfrifoldeb goruchwylio neu reoli ac mae'n darparu sylfaen yn hanfodion iechyd a diogelwch fel bod mynychwyr yn dod i ddeall pam mae'n rhaid iddynt weithio'n ddiogel.

**IOSH Rheoli'n Ddiogel**
Mae'r cwrs 4 diwrnod hwn ar gyfer y goruchwylwyr a'r rheolwyr hynny sydd angen rheoli yn ddiogel ac yn effeithiol gan gydymffurfio â pholisi ac arfer gorau iechyd a diogelwch y Cyngor.

**Cwrs Gloywi Rheoli'n Ddiogel IOSH**
Mae'r cwrs gloywi 1 diwrnod hwn ar gyfer goruchwylwyr a rheolwyr sydd eisoes wedi cwblhau cwrs Rheoli'n Ddiogel IOSH. Bydd y rhaglen yn ailedrych ar y cyfrifoldebau rheoli allweddol o'r cwrs 4 diwrnod ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau perthnasol mewn canllawiau arfer da, deddfwriaeth a safonau.

Gellir archebu'r holl ddigwyddiadau drwy system Hunanwasanaeth iTrent. Gallwch wirio argaeledd ac archebu eich lle yma:
**ESS - Mewngofnodi (conwy.gov.uk)**.



# 18 Hyfforddiant Argyfyngau Sifil Posibl

Mae dysgu a datblygu aml-asiantaeth wedi gwella perthnasau gwaith da ac wedi helpu i arwain ymatebion cydlynol a llwyddiannus i argyfyngau o fewn Gogledd Cymru. Mae JESIP yn tanategu a darparu strwythur clir ar gyfer gwaith aml-asiantaeth ac yn cael ei gynnwys ymhob sesiwn, cwrs hyfforddi, ymarfer a digwyddiadau prif siaradwyr a gynhelir trwy Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd.

Os yw eich rôl yn gofyn i chi ymateb i argyfwng, mae gennym gyrsiau amrywiol ar gael i'r cefnogi a'ch paratoi chi.

I gael mwy o fanylion, cysylltwch â: **hyfforddiant@conwy.gov.uk**.

**Modiwlau e-Ddysgu NWCREPS**
Caiff modiwlau eu cynnal ar **Iwyfan Dysgu@Cymru**. Mae adran o dan y tab Awdurdodau Lleol o'r enw: Llwyfan Dysgu@ Cymru Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru.

# 19 Dysgu Hunangyfeiriedig

Gwella eich gwybodaeth ar eich cyflymder eich hun ar amser sy'n gyfleus i chi. Yma dewch o hyd i ddolenni at wefannau a ffynonellau dysgu amgen, gwybodaeth ddefnyddiol, arferion gorau ac adnoddau, yn ogystal ag offer e-ddysgu y gellir cael mynediad atynt fel rhan o'n datblygiad parhaus.

Mae **Acas** â chanllawiau defnyddiol ar arfer gorau ymgysylltu â gweithwyr a deddfwriaethau cyflogaeth yn ogystal â chyfleuster e-ddysgu ymarferol. Maent yn ddefnyddiol iawn i reolwyr, goruchwylwyr ac unrhyw un arall sy'n gyfrifol am wella busnes neu berfformiad gweithredol. **Hyfforddiant | Acas**

Cynhyrchwyd gan y **Brifysgol Agored**, un o arweinwyr y byd mewn addysgu agored ac o bell, cewch astudio pob cwrs OpenLearn am ddim. Gall unrhyw un ddysgu am ddim ond bydd cofrestru yn rhoi mynediad i chi i broffil dysgu personol a chofnod o gyraeddiadau y gallwch eu hennill wrth astudio. **Ein holl gyrsiau am ddim | OpenLearn - Y Brifysgol Agored**

**Data Cymru,** yn rhoi data a gwybodaeth yn ganolog i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Yn cynnig ystod o gyfleoedd hyfforddi wedi'u harwain gan arbenigwyr yn eu maes a'u darparu ar-lein. **Data Cymru - Cyrsiau hyfforddi**

Bob blwyddyn mae **Archwilio Cymru** yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ymarfer da. Mae'r mwyafrif ohonynt yn seminarau/gweminarau dysgu a rennir. Mae'r gweithdai hyn yn dod ag unigolion ynghyd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn rhannu syniadau ar ymarfer da ar faterion penodol. **Digwyddiadau | Archwilio Cymru**

**SOCITM -** Cymdeithas Arloesi, Technoleg a Moderneiddio. Y prif sefydliad aelodaeth sy'n helpu i siapio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae ystod o ddigwyddiadau dysgu, gweminarau a gweithdai ar gael. **Calendr - Socitm**

Rhaglen hyfforddi '**Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol'** ar-lein ar gyfer unrhyw un yng Nghymru sydd â diddordeb mewn gyrfa ym maes Gofal Cymdeithasol. Bydd y rhaglen hon yn rhoi trosolwg ar weithio ym maes Gofal Cymdeithasol gan edrych ar beth yw Gofal Cymdeithasol a'r rolau gwahanol sydd ar gael yn y sector. **Gofal Cymdeithasol Cymru | Hyfforddiant newydd "Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol"...**

Cenhadaeth **TED** yw lledaenu syniadau; mae TED yn gymuned fyd-eang sy'n croesawu pobl o bob disgyblaeth a diwylliant sy'n ceisio dealltwriaeth ddyfnach o'r byd. Mae TED yn credu'n angerddol yng ngrym syniadau i newid agweddau, bywydau ac, yn y pen draw, y byd. Ar TED.com, gallwch weld swyddfa ganolog o wybodaeth am ddim gan feddylwyr mwyaf ysbrydoledig y byd - a chymuned o eneidiau chwilfrydig i ymgysylltu â'i gilydd a syniadau'r naill a'r llall, a hynny ar-lein ac yn nigwyddiadau TED a TEDx ledled y byd, drwy gydol y flwyddyn. Argymhelliad TED **TED: Mae syniadau'n newid popeth**

Mae'r **Cynllun Llysgennad Twristiaeth** yn darparu cyfle hyfforddi ar-lein i wella eich gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael i dwristiaid yn Sir Conwy gyfan. **Cwrs Llysgennad Twristiaeth Conwy - Llysgennad Cymru**

Mae cwrs e-ddysgu **Ymwybyddiaeth ACT** yn gynnyrch ymwybyddiaeth Gwrthderfysgaeth newydd sydd wedi'i ddylunio ar gyfer holl sefydliadau ac unigolion yn y DU. Mae'n darparu canllawiau gwrthderfysgaeth corfforaethol, achrededig cenedlaethol i helpu diwydiant i ddeall yn well a lliniaru yn erbyn methodoleg terfysgaeth gyfredol. **Cwrs e-ddysgu gwrthderfysgaeth ACT (conwy.gov.uk)**

**Linkedin** - Er bod Linkedin Learning yn cynnig cyrsiau strwythuredig, mae llwyfannau Linkedin ehangach yn dal i fod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer twf economaidd a dysgu. Gallwch ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol y diwydiant, ymuno â grwpiau sy'n berthnasol i chi a chymryd rhan mewn trafodaethau. Gallwch hefyd ddysgu o brofiadau a mewnwelediad eraill, gyda chwmnïau a dylanwadwyr proffesiynol y diwydiant yn aml yn rhannu cynnwys, erthyglau a diweddariadau gwerthfawr ym mhob â thueddiadau diwydiant.

# 20 Canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol

Trwy fuddsoddi mewn dysg, rydym yn mynd ati i wella'r sgiliau hynny sy'n ein helpu i arloesi a thyfu. Mae'r cynnig dysgu a datblygu wedi'i alinio â'n canlyniadau yn y **Cynllun Corfforaethol**, gan ganolbwyntio ar ddatblygu ystod o sgiliau a gwybodaeth fel y gall ein gweithwyr fodloni galw mewn gwasanaeth yn y dyfodol.

**Yr Amgylchedd**
Rydym yn byw mewn sir ble rydym yn gwerthfawrogi'r amgylchedd ac yn gofalu amdano.

**Twf a'r Economi**
Rydym yn byw mewn sir ag economi cadarn sy'n hyrwyddo ac yn dathlu ein diwylliant.

**Addysg a Sgiliau**
Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus.

**Tai**
Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd.

**Diogelwch**
Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.

**Iechyd**
Mae pobl yng Nghonwy'n iach.

**Y Gymraeg yn Ffynnu**
Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir ble mae'r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan mewn pob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg.

**Parchu Pobl a Gwrando Arnynt**
Mae pobl yng Nghonwy yn cael eu parchu, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, yn cael eu clywed ac yn cymryd rhan ym mywyd y gymuned.

**Cadernid i'r Dyfodol**
Mae pobl yng Nghonwy yn gwybod bod eu Cyngor yn wydn ac yn gallu bodloni eu hanghenion nawr, ac yn y dyfodol.